# Adolygiad Gwella Ansawdd
# Grŵp Llandrillo Menai

## Adroddiad ar Ddeilliannau

**Mai 2022**

## Cynnwys


**Ynglŷn â dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd ........ 1**
**Ynglŷn â'r adolygiad hwn........ 1**
**Ynglŷn â Grŵp Llandrillo Menai ........ 2**
**Dyfarniadau ynglŷn â Grŵp Llandrillo Menai ........ 3**
Canmoliaeth ........ 3
Cadarnhad ........ 4
Argymhellion ........ 4
**Gwybodaeth bellach ........ 4**


*Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg*

## Ynglŷn â dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio'r dull ar gyfer cynnal Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) ac mae’n cynnwys dolenni at y llawlyfr QER a dogfennau defnyddiol eraill.[1] Ar gyfer 2021-22, roedd cwmpas Adolygiadau Gwella Ansawdd yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd yn unol â newidiadau CCAUC i ofynion sicrhau ansawdd allanol mewn ymateb i bandemig COVID-19. O ganlyniad, cyhoeddodd QAA atodiad i gyd-fynd â'r llawlyfr QER sy'n esbonio'r addasiadau i'r dull cyflwyno. Ar gyfer 2021-22, mae gan ddarparwyr gyfle i ymgysylltu â QAA ar wahân ynghylch gwella ansawdd. Gallwch hefyd ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA).[2]

## Ynglŷn â'r adolygiad hwn

Dyma Adroddiad ar Ddeilliannau’r Adolygiad Gwella Ansawdd a gynhaliwyd gan QAA gyda Grŵp Llandrillo Menai. Cynhaliwyd yr Ymweliad Adolygu ar-lein rhwng 9fed a 10fed Mai 2022. Cynhaliwyd yr adolygiad gan dîm o dri adolygydd:

- Ms Lesley Davis (Adolygydd)
- Dr Christine Jones (Adolygydd)
- Dr Harry Williams (Myfyriwr Adolygydd).

Mae adolygiadau QAA yn brosesau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae dyfarniadau ar adolygiadau’n seiliedig ar y dogfennau y mae timau adolygu'n eu gweld, y cyfarfodydd y maent yn eu cynnal, a chan dynnu ar eu profiad fel adolygwyr cymheiriaid a myfyrwyr adolygwyr.

Yn yr adroddiad hwn, ac ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd, mae’r tîm QER yn gwneud dyfarniadau ar y canlynol:

- gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) Rhan 1 ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol
- Gofynion rheoleiddio sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

Mae'n bosibl i'r farn gyffredinol gael ei mynegi ar dair lefel sy'n nodi a yw'r darparydd yn 'bodloni’r gofynion hyn', 'yn eu bodloni ag amodau', neu 'ddim yn bodloni'r gofynion'. Rhoddir mwy o fanylion am y categorïau hyn yn y Llawlyfr QER.

Gellir gweld y dyfarniad trosfwaol ar gyfer yr adroddiad hwn ar dudalen 3, ac yna unrhyw ganmoliaeth, cadarnhad ac argymhellion.

Bydd Adroddiad Technegol manylach ar gael ar gyfer yr adolygiad hwn[3] a bydd yn nodi canfyddiadau'r tîm o dan bob pennawd yn y QER: Dull Cymru.

---

[1] Ynglŷn â QER: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd
[2] Ynglŷn â QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni
[3] Adroddiad Technegol: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Gr-p-Llandrillo-Menai

## Ynglŷn â Grŵp Llandrillo Menai

Sefydlwyd Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp; GLlM) ym mis Ebrill 2012 yn dilyn uno tri choleg llwyddiannus ar draws ardal eang o Ogledd Cymru. Y colegau gwreiddiol oedd Coleg Llandrillo (CLl), Coleg Menai (CM) a Choleg Meirion-Dwyfor (CMD). Cedwir y rhain fel aelod-golegau, gan ychwanegu Busnes@ (GLlM). Mae'r Grŵp yn un o'r darparwyr addysg bellach (AB) mwyaf o ran cynnig rhaglenni addysg uwch (AU) yng Nghymru, ac mae'n un o ddim ond tri choleg yng Nghymru sydd â statws Ariannu Uniongyrchol, sy'n galluogi mynediad uniongyrchol at incwm trwy ffioedd myfyrwyr. Dilysir y ddarpariaeth gan Brifysgol Bangor (PB) fel rhan o bartneriaeth strategol ddatblygedig. Mae *Pearson Edexcel* yn dilysu HNC/D mewn Peirianneg Gyffredinol a HNC yn y Celfyddydau Perfformio.

Mae darpariaeth AU GLlM yn cyd-fynd â chynllun strategol cyfredol y sefydliad, sef Gwella Dyfodol Pobl, sydd ar waith tan 2024. Mae'r cynllun AU yn cefnogi cyflawniad pob un o'r tri nod strategol, ond mae ffocws penodol ar Nod Strategol 2, 'Creu gweithlu medrus i gynorthwyo cyflogwyr'.

Mae'r cynllun yn ystyried blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y canlynol: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Aliniad â Sero Net - gyda blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol yn hanfodol ar gyfer unrhyw ddatblygiad AU yn y dyfodol. Mae'r blaenoriaethau wedi'u nodi fel a ganlyn: Ynni a'r Amgylchedd; Adeiladu; Gweithgynhyrchu Uwch; Creadigol a Digidol; Twristiaeth a Lletygarwch; Iechyd a Gofal; Bwyd a Ffermio; Cyllidol a Phroffesiynol.

Yn strategol, mae Bwrdd GLlM wedi ystyried y blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth AU y Grŵp, ac wedi nodi nifer o feysydd allweddol i'w datblygu gan gynnwys: cefnogi adferiad a thwf economaidd rhanbarthol; ehangu cyfranogiad; gwreiddio cynaladwyedd a digideiddio; datblygu llwybrau AU galwedigaethol lefel 4 a 5 ymhellach; partneriaethau AU strategol rhagorol, cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg; a dull darparu effeithlon.

Ar adeg yr ymweliad roedd 340 o gofrestriadau llawn-amser, 399 rhan-amser a 184 o gofrestriadau unigol. Mae niferoedd myfyrwyr wedi gostwng ar gyfer darpariaeth lawn-amser (28%) a rhan-amser (9%) ers 2019-20 gyda gostyngiad o 52 y cant mewn cofrestriadau unigol yn 2021-22. Mae yna 1533 o aelodau staff. Darlithio yw prif rôl 581 o'r rhain - mae 488 yn barhaol gyda 292 yn gweithio fel darlithwyr llawn-amser a 196 ar gontractau parhaol nad ydynt yn llawn-amser. Mae 93 o staff ar gytundebau dros-dro, gyda phump o'r rheiny ar oriau llawn-amser.

Mae'r Grŵp wedi bod trwy ddau adolygiad QAA yn flaenorol. Yn 2013 bu'n destun Adolygiad Graddau Sylfaen, a arweiniodd at argymhellion ynghylch ymgysylltu â chyflogwyr, dysgu yn y gweithle, sgiliau astudio a dychwelyd asesiadau'n brydlon. Nodwyd arfer da hefyd o ran datblygu rôl y tiwtor arweiniol. Yn 2016 bu'r Grŵp yn destun Adolygiad Gwella Ansawdd : Cymru, gan dderbyn pedwar argymhelliad yn ymwneud â'r system cynrychiolwyr myfyrwyr, mecanweithiau i hysbysu myfyrwyr am ganlyniadau arolygon ar lefel sefydliadol a modiwl, amseru ac amserlennu asesiadau a gweithdrefn ar gyfer adolygiad cylchol o ddarpariaeth *Pearson Edexcel* gyda hyfforddiant priodol i staff ar baneli ac mewn timau rhaglen. Nodwyd arfer da hefyd o ran cymorth i fyfyrwyr: y defnydd o adroddiadau gan arholwyr allanol; partneriaethau effeithiol â chyflogwyr; effeithiolrwydd y Grŵp Ansawdd a Safonau AU; a'r system olrhain ar-lein. Arweiniodd y naill adolygiad a'r llall at ddeilliannau cadarnhaol ar y cyfan. Aethpwyd i'r afael yn llwyddiannus â'r cynlluniau gweithredu a ddeilliodd o'r ddau adolygiad.

Cynhaliodd GLlM Adolygiad Cylchol o'i ddarpariaeth *Pearson* yn Rhagfyr 2017, lle nodwyd Pum Peth maes o arfer da gan gynnwys: y berthynas ragorol rhwng staff a myfyrwyr;

cysylltiadau da gyda diwydiant; diwallu anghenion lleol trwy ddarparu rhaglenni Peirianneg Gyffredinol; y cymorth a ddarperir i fyfyrwyr; ac ymatebion i ddilyswyr allanol.
Roedd nifer o Feysydd i'w Datblygu (Argymhellion) yn ymwneud â recriwtio, marchnata, hyrwyddo gwybodaeth i fyfyrwyr, cynllunio asesiadau, adborth, adnoddau, cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, defnyddio polisïau a gweithdrefnau GLIM, dulliau asesu, datblygiad proffesiynol parhaus a chymeradwyo HND. Ar y cyfan roedd hwn yn ganlyniad cadarnhaol ac aethpwyd i'r afael â'r cynllun gweithredu yn llwyddiannus.

Roedd Prifysgol Bangor yn cydnabod GLIM fel partner dibynadwy a chyflwynodd broses ddilysu newydd yn 2018-19. Bu cynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog ar draws y Grŵp yn gyffredinol, gyda datblygiadau penodol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Y newid mwyaf arwyddocaol ers Adolygiad diwethaf QAA fu ymateb y Grŵp i COVID-19 er mwyn parhau â darpariaeth effeithiol ar gyfer dysgwyr. Datblygwyd addysgu hybrid yn gyflym ac mae wedi cael ei groesawu gan staff a myfyrwyr. Newidiwyd arsylwi ar addysgu hefyd i gydnabod datblygiad addysgu hybrid a chyflwynwyd 'Trafodaeth Broffesiynol' newydd fel rhan o arsylwi ar addysgu.

## Dyfarniadau ynglŷn â Grŵp Llandrillo Menai

Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu o'r farn:

- Mae Grŵp Llandrillo Menai **yn bodloni** gofynion Rhan 1 ESG ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol.
- bod Grŵp Llandrillo Menai **yn bodloni** gofynion rheoleiddio sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

Mae hwn yn ddyfarniad cadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparydd drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau safonau academaidd, rheoli ansawdd academaidd ac ar gyfer gwella ansawdd profiad myfyrwyr.

### Canmoliaeth

Mae'r Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) wedi nodi sawl maes sy'n haeddu canmoliaeth; gweler grynodeb isod.

- Ehangder a dyfnder y gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael ar bob campws ac i bob myfyriwr, sy'n galluogi eu datblygiad academaidd, personol a phroffesiynol

- Y cyfleusterau addysgu a dysgu cynhwysfawr sydd ar gael i fyfyrwyr gan gynnwys y defnydd helaeth o dechnoleg i gynorthwyo addysgu.

- Agwedd strategol y Grŵp at y ddarpariaeth ar gyfer dysgu ar-lein a dysgu o bell sy'n sicrhau profiad dysgu cynhwysol i fyfyrwyr.

- Cynnwys cyflogwyr ac arbenigwyr pwnc allanol eraill wrth gynllunio a chyflwyno rhaglenni sy'n effeithiol o ran gwella profiad galwedigaethol a dilyniant i fyfyrwyr.

## Cadarnhad

Mae'r Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) wedi cadarnhau sawl maes; gweler grynodeb isod.

- Y camau a gymerwyd i ymwneud ymhellach â'r garfan amrywiol o fyfyrwyr sy'n galluogi'r Grŵp i weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr ac i wella profiad dysgu'r myfyrwyr.
- Y camau sy'n cael eu cymryd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu cyfleoedd galwedigaethol mewn addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y rhanbarth.
- Y datblygiadau sy'n cael eu gwneud i sicrhau proses dderbyniadau addysg uwch llinol, symlach trwy rôl y Swyddog Derbyniadau Addysg Uwch a Gyrfaoedd.

## Argymhellion

Mae'r Adolygiad Gwella Ansawdd yn gwneud yr argymhelliad a ganlyn.

- Ffurfioli a gweithredu hyfforddiant priodol, ar gyfer staff academaidd sefydledig, ym mhrosesau ansawdd y Grŵp i sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso mewn modd cyson.

# Gwybodaeth bellach

Bydd Adroddiad Technegol manylach ar gael ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae'r Adroddiad Technegol yn nodi canfyddiadau'r tîm o dan bob pennawd yn y dull ar gyfer QER.

Mae'r adolygiad hwn a'i ganfyddiadau yn ymwneud â'r darparydd yn ei gyfanrwydd, ac nid ydynt yn cynnig gwybodaeth am raglenni astudio neu bynciau unigol. I gael rhagor o wybodaeth am y rheiny, cysylltwch â'r darparydd neu ewch i'w wefan.

Ceir mwy o wybodaeth ynglŷn â QAA a QER ar wefan QAA.

**QAA2671 - R13107 - Gorffennaf 22**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk